Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2018 Rhif 724 (Cy. 141)**

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU

# LLYGREDD MOROL, CYMRU

# Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2018

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011 ("Gorchymyn 2011"), sy'n cyfeirio at Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 19 Tachwedd 2008 ar wastraff ac yn diddymu Cyfarwyddebau penodol (OJ Rhif L 312, 22.11.2008, t. 3.) ("y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff").

Diwygiwyd y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff gan Reoliad y Cyngor (UE) 2017/997 dyddiedig 8 Mehefin 2017 sy'n diwygio Atodiad III i Gyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y nodwedd beryglus HP 14 'Ecowenwynig' (OJ Rhif L 150, 14.6.2017, p. 1).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r cyfeiriad at y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn erthygl 3 o Orchymyn 2011 i gyfeirio at y Gyfarwyddeb fel y'i diwygwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (UE) 2017/997.

Mae erthygl 3 yn dirymu Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n deillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 724 (Cy. 141)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# TRWYDDEDU (MOROL), CYMRU

# LLYGREDD MOROL, CYMRU

## Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2018

*Gwnaed* *11 Mehefin 2018*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *14 Mehefin 2018*

*Yn dod i rym* *5 Gorffennaf 2018*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas ag atal, lleihau a rheoli gwastraff(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o'r Ddeddf honno.

(**1**) Yn rhinwedd adran 59(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) mewn perthynas ag unrhyw fater, neu at unrhyw ddiben, os ydynt wedi eu dynodi mewn perthynas â'r mater hwnnw, neu at y diben hwnnw.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3 a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).

(**3**) O.S. 2010/1552.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Gorffennaf 2018.

### Diwygio Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) 2011(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3 (dehongli), yn y diffiniad o "y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff" *("the Waste Framework Directive"),* yn lle "fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Comisiwn (UE) 2015/1127", rhodder "fel y'i diwygwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (UE) 2017/997(**2**)".

### Dirymiad

**3.** Dirymir Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) (Cymru) (Diwygio) 2016(**3**).

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynlluno a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
11 Mehefin 2018

---

(**1**) O.S. 2011/559 (Cy. 81), diwygiwyd gan O.S. 2016/690 (Cy. 188).
(**2**) OJ Rhif L 150, 14.6.2017, t. 1.
(**3**) O.S. 2016/690 (Cy. 188).